

---

Ein Cyfeirnod: 11346647

13 Rhagfyr

Annwyl Breswlydd a Busnesau Lleol,

Ar ran Cyngor Swydd Gaerloyw, yn gweithio mewn partneriaeth gyda Chyngor Sir Fynwy, rwyf yn ysgrifennu atoch er mwyn eich diweddarau ar ein cynlluniau i adnewyddu Pont Gwiffrwaith Tyndyrn.

Mae'r bont ar agor ar hyn o bryd i gerddwyr a seiclwyr ond yn dilyn asesiad a gynhaliwyd yn gynharach yn ystod 2021, gwnaed y penderfyniad anodd i gau'r bont i gerbydau ym mis Awst.

Rydym nawr yn paratoi cynllun adnewyddu a chryfhau a fydd yn dechrau yng Ngwanwyn 2022.

Yn sgil cyflwr y bont sy'n dirywio, ni fydd yn bosib cadw'r bont ar agor tan fis Hydref 2022 i gerddwyr a seiclwyr fel yr awgrymwyd, heb wario arian ychwanegol gan drethdalwyr ar waith dros dro a fydd yn gorfod cael ei symud cyn i ni fedru dechrau'r gwaith adnewyddu a chryfhau. Tan hynny, byddwn yn monitro'r bont yn hon ac yn cyfyngu mynediad fel sydd angen er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn ddiogel.

Rydym bron â chwblhau'r camau cynllunio ar gyfer y gwaith ac yn dechrau ymgynghori nawr gyda chontractwyr posib am y camau adeiladu.

Rydym yn medru cadarnhau y bydd y gwaith yn cynnwys:

- Tynnu'r dec pren oddi yno a gosod dec haearn newydd er mwyn medru cwrdd â'r gofynion capasiti Yn unol gyda'r gofynion treftadaeth, bydd yna orchudd fel dec pren yn cael ei ail-osod yno.
- Atgyfnerthu'r strwythur drwy osod trawstiau bocs newydd a disodli'r hen seilwaith haearn sydd yn rhydu
- Tynnu'r graean oddi yno a phaentio (a fydd angen ei amgáu)
- Ail-bwyntio'r gwaith cerrig/pierau er mwyn sicrhau hirhoedledd

Mae rhai o'r gweithgareddau yma yn golygu na fydd modd defnyddio'r bont gan y byddwn yn tynnu'r dec yn llwyr am gyfnod sylweddol yn ystod y cyfnod adeiladu. Mae hyn yn golygu y bydd angen cau'r bont yn llwyr yn ystod y gwaith hwn.

Rydym yn gwerthfawrogi y bydd cau'r bont yn achosi anghyfleustra, ac o wybod hyn, nid oedd y penderfyniad i ddechrau'r gwaith yn y Gwanwyn yn benderfyniad hawdd. Fodd bynnag, byddai gwneud y gwaith dros gyfnod y gaeaf yn arwain at mwy o risgiau o ran llifogydd, lefelau uchel o ddŵr, amgylchedd gwaith diogel, tywydd gwael, risg sylweddol o'r gwaith yn parhau am gyfnod hirach ac oriau gwaith wedi eu cyfyngu gan ei fod yn tywyllu'n gynnar.

Rydym yn bwriadu cynnal digwyddiadau cyhoeddus yn gynnar yn 2022 er mwyn rhannu'r cynlluniau ar gyfer y

gwaith ac ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych. Byddwn yn cyhoeddi manylion y digwyddiadau yma ar-lein a thrwy ddanfon llythyr at aelwydydd.

Mae yna wefan benodol ar gyfer y gwaith hwn a byddwn yn diweddarau'r dudalen pan fydd gwybodaeth newydd ar gael er mwyn ei rhannu:

[www.gloucestershire.gov.uk/tintern-bridge](http://www.gloucestershire.gov.uk/tintern-bridge)

Rwyf yn ymddiheuro am unrhyw anghyfleustra a fydd yn cael ei achosi gan y gwaith atgyweirio hanfodol hwn ond rhaid i ni gadw'r cyhoedd yn ddiogel ynghyd â'r sawl sydd yn defnyddio'r bont ac mae hyn yn flaenoriaeth i ni. Os oes unrhyw gwestiynau gennych, yna cysylltwch os gwelwch yn dda gyda ni -

[Highways@gloucestershire.gov.uk](mailto:Highways@gloucestershire.gov.uk)

Yr eiddoch yn gywir,



Jen Williamson  
Rheolwr Prosiect  
Prosiectau Seilwaith Gwyrdd  
Cyngor Sir Gaerloyw